

Enw: George Eyre Evans

Dyddiad geni: 1857

Dyddiad marw: 1939

Rhiant: Ophelia Evans (née Powell)

Rhiant: David Lewis Evans

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog Undodaidd a hynafiaethydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Thomas Oswald Williams

Mab i [David Lewis Evans](#); ganwyd 8 Medi 1857 yn Colyton, swydd Dyfnaint. Bu yn ysgol [William Thomas](#) ('Gwilym Marles') ac mewn ysgol yn Lerpwl. Bu am rai blynyddoedd yn weinidog Eglwys y Gwaredwr yn Whitchurch, Sir Amwythig, a rhoes flynyddoedd o'i oes yn ddi-dâl i'r capel Undodaidd yn Aberystwyth. Eithr hanesydd a hynafiaethydd ydoedd yn anad dim. Bu am 18 mlynedd yn swyddog ymchwil i'r comisiwn brenhinol ar 'Ancient Monuments' yng Nghymru a Mynwy, ac yn ysgrifennydd Cymdeithas Hynafiaethol sir Gaerfyrddin am 23 mlynedd. Derbyniodd 'The Silver Wolf' - yr anrhydedd uchaf ym mudiad y Scouts. Cyhoeddodd nifer o lyfrau Saesneg - *History of Renshaw Street Chapel, Liverpool*, 1887; *Colytonia*, 1898; *Whitchurch of Long Ago*, 1893; *Vestiges of Protestant Dissent*, 1897; *The Midland Churches*, 1899; *Lampeter*, 1905; *Cardiganshire, a Personal Survey*, 1903; *Record of the Provincial Assembly of Lancashire and Cheshire*, 1896; *Antiquarian Notes*, cylchgrawn preifat a gyhoeddodd o 1898 hyd 1905 o leiaf. Yr oedd ganddo hefyd nifer mawr o lyfrau mewn llawysgrif. Bu farw 9 Tachwedd 1939 yn 82 mlwydd oed a gwasgarwyd ei lwch ym mynwent Alltyplaca, Llanwenog.

Awdur

Y Parchedig Thomas Oswald Williams, (1888 - 1965)

Ffynonellau

Transactions of the Unitarian Historical Society, vii, 199-203

Yr Ymfynnydd, 1939

NLW MSS 3188-90, 4280-4300, 7992-4, 7945-83

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733065](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

